Protocol Cyfarfod Zoom CAVS
Diolch am eich amynedd.
Mae'r ffordd hon o gwrdd yn newydd i ni, ac ni fyddwn i gyd yn gyfarwydd â Zoom

- **Diffoddwch eich meicroffon** bob amser oni bai eich bod chi'n siarad
- **Codwch eich llaw** os hoffech ofyn cwestiwn neu wneud sylw
- **Ail-enwi'ch hun**: Eich enw cyntaf, ac enw eich grŵp

Diffoddwch eich meicroffon (**Mute)**
Diffoddwch eich meicroffon bob amser oni bai eich bod yn siarad



- Cliciwch y botwm 'Mute' ar waelod chwith eich sgrin

(Cofiwch glicio eto i 'unmute' pan fyddwch chi eisiau siarad)

Y Rhestr Cyfranogwyr
Mae'r rhestr hon yn dangos pwy sydd yn y cyfarfod



- Cliciwch ar y botwm Cyfranogwyr sydd ar waelod eich sgrin
- Mae'r rhestr Cyfranogwyr yn ymddangos ar y dde
  (Cliciwch y botwm eto i guddio'r rhestr)

Codwch eich llaw
Codwch eich llaw i ddangos eich bod yn dymuno siarad



- Dangoswch y rhestr Cyfranogwyr (cliciwch ar y botwm Cyfranogwyr sydd ar waelod eich sgrin)
- Cliciwch y botwm [Raise Hand], ar waelod y rhestr cyfranogwyr

Ail-enwi'ch hun
Fel gwisgo bathodyn enw felly rydyn ni'n gwybod pwy ydych chi



- Dangoswch y rhestr Cyfranogwyr (cliciwch ar y botwm Cyfranogwyr sydd ar waelod eich sgrin)
- Dewch o hyd i'ch enw ar y rhestr.
- Gallwch chi ailenwi'ch hun yma e.e. eich enw cyntaf, ac enw eich grŵp

Sgwrsio (Chat)



- Cliciwch y botwm Sgwrsio ar waelod eich sgrin
  (Mae'r ffenestr Sgwrsio yn ymddangos ar y dde)
- Teipiwch negeseuon yn y ffenestr Sgwrsio
  Gellir ei ddefnyddio ar gyfer
  - rhannu gwybodaeth
    e.e. manylion cyswllt, dolenni gwefan ac ati
  - Gofyn cwestiynau
  - Gwneud sylwadau